Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) (Diwygio, Darpariaeth Drosiannol a Dirymu) 2023

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) (Diwygio, Darpariaeth Drosiannol a Dirymu) 2023. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog
3 Tachwedd 2023

RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

1. Disgrifiad

1.1 Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn cael ei benodi gan Brif Weinidog Cymru. Mae Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) (Diwygio, Darpariaeth Drosiannol a Dirymu) 2023 sy'n diwygio Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) 2007 ac yn dirymu Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) (Diwygio) 2016 yn darparu y dylai Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru newydd ei benodi gael ei benodi am gyfnod swydd sefydlog o saith mlynedd na ellir ei ymestyn.

1.1 Diben y newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yw sicrhau bod y cyfnod swydd y penodir holl Gomisiynwyr Cymru ar ei gyfer yn gyson, ar gyfnod sefydlog o saith mlynedd na ellir ei ymestyn.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan y pŵer a nodir yn adran 28(2) o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, a pharagraff 2 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno.

3.2 Mae'r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae pedwar Comisiynydd yng Nghymru sy'n cael eu penodi gan Brif Weinidog Cymru, ac maent yn cael eu cefnogi trwy drefniadau cyllido a llywodraethu tebyg. Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, a Chomisiynydd y Gymraeg yw'r rhain. Penodir Comisiynydd y Gymraeg, Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, bob un ohonynt, am gyfnod swydd sefydlog o saith mlynedd na ellir ei ymestyn o dan y darpariaethau cyfreithiol penodol sy'n berthnasol i'w priod benodiadau. Fodd bynnag, y sefyllfa hyd yma yw bod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn cael ei benodi am gyfnod swydd o bedair blynedd. Mae gan y Prif Weinidog y pŵer i ymestyn cyfnod swydd cychwynnol y Comisiynydd Pobl Hŷn, a hynny o ddwy flynedd, ond dim ond ar ôl ystyried barn pobl hŷn yng Nghymru neu'r rhai sy'n cynrychioli'r farn honno y gellir arfer y pŵer hwn. Fel arall, caiff y Comisiynydd ailymgeisio, trwy broses gystadleuol, am gyfnod swydd o bedair blynedd bellach, ond nid am unrhyw dymor ychwanegol.

4.2 Diben y Rheoliadau hyn yw sicrhau bod cyfnod swydd holl Gomisiynwyr Cymru yn gyson ar saith mlynedd. Bydd y Rheoliadau hyn yn caniatáu i'r Prif Weinidog benodi'r Comisiynydd Pobl Hŷn am gyfnod swydd o saith mlynedd yn hytrach na'r cyfnod presennol o bedair blynedd. Mae'r cyfle i ofyn i'r Prif Weinidog am estyniad o ddwy flynedd, neu i ailymgeisio trwy broses gystadleuol yn dilyn cwblhau cyfnod llwyddiannus, yn cael ei ddileu.

4.3 Penodir y Comisiynydd Pobl Hŷn nesaf fis Awst 2024. Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn sicrhau y gellir penodi'r Comisiynydd nesaf am gyfnod swydd sefydlog o saith mlynedd na ellir ei ymestyn.

4.4 **Cefndir ychwanegol i'r newidiadau hyn**

Ym mis Mehefin 2014, comisiynodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi adolygiad annibynnol o rôl a swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru. Cyhoeddwyd adroddiad Dr Shooter ar yr adolygiad ym mis Rhagfyr 2014. Er bod yr adroddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar y Comisiynydd Plant, gwnaed argymhellion canlyniadol mewn perthynas â'r pedwar Comisiynydd yng Nghymru. Mewn perthynas â'r Comisiynydd Pobl Hŷn, argymhellwyd y dylid gwneud ymdrechion i gysoni cyfnod swydd y Comisiynydd â'r tri Chomisiynydd arall yng Nghymru.

Argymhellodd Dr Shooter ddull dau gam o fynd ati i gysoni cyfnod swydd y Comisiynydd Pobl Hŷn. Yn y lle cyntaf, dylai diwygio Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) 2007 ei gwneud yn bosibl i'r cyfnod swydd o bedair blynedd gael ei ymestyn am ddwy flynedd, neu dylai gynnig y cyfle i ailymgeisio am y rôl. Daeth y diwygiadau hyn, a wnaed gan Reoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) (Diwygio) 2016, i rym ym mis Ebrill 2016.

Cysoni cyfnod swydd y Comisiynydd Pobl Hŷn â'r Comisiynwyr eraill yng Nghymru, i'w bennu yn gyfnod sefydlog o saith mlynedd na ellir ei ymestyn, oedd yr ail gam. Dyma'r effaith y disgwylir i'r Rheoliadau hyn, a ddaw i rym ym mis Rhagfyr 2023, ei chael.

5. Ymgynghori

5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig hwn rhwng 19 Mehefin a 12 Medi 2023. Gofynnwyd chwe chwestiwn:

- **Cwestiwn 1** Ydych chi'n cwblhau'r arolwg fel aelod o'r cyhoedd neu ar ran sefydliad?
- **Cwestiwn 2** Hoffem gael eich barn ynghylch a ddylem wneud y newidiadau arfaethedig hyn. A ydych yn cytuno y dylem newid y Rheoliadau ar gyfer penodi Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o gyfnod o 4 blynedd yn y swydd i gyfnod o 7 mlynedd yn y swydd yn unol â Chomisiynwyr eraill Cymru? Wrth wneud hynny, byddwn yn dileu'r

opsiwn presennol i ofyn am estyniad o 2 flynedd neu ymgeisio am ail dymor o 4 blynedd yn y swydd.

- **Cwestiwn 3** A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol i gefnogi'ch ateb?
- **Cwestiwn 4** Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r newidiadau arfaethedig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau y byddent yn eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?
- **Cwestiwn 5** Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y newidiadau arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- **Cwestiwn 6** Beth yn eich barn chi fyddai'r effeithiau tebygol ar unigolion a grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig yn sgil y newidiadau hyn? Byddai eich barn ar sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau negyddol yn cael eu lliniaru, i'w groesawu hefyd.

5.2 Cafodd yr ymgynghoriad 12 wythnos ei gynnal trwy wefan Llywodraeth Cymru rhwng 19 Mehefin a 12 Medi 2023. Roedd y ddogfen ymgynghori yn rhoi trosolwg o'r rhesymau y tu ôl i'r ymgynghoriad a manylion sut i ymateb.

Ym mis Mehefin 2023, ysgrifenasom trwy e-bost at ein rhanddeiliaid yn eu gwahodd i ymateb ac i rannu'r gwahoddiad yn eu cymunedau a'u rhwydweithiau ledled Cymru. Roedd y sefydliadau sy'n cynrychioli barn pobl hŷn a gafodd eu gwahodd i ymateb fel a ganlyn:

- Aelodau Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio
- Age Cymru
- Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru
- Cymru Egnïol
- Cynghrair Pobl Hŷn Cymru. Fforwm Pobl Hŷn Cymru
- Swyddogion Cymru o Blaid Pobl Hŷn ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru
- Cynghorwyr Etholedig sy'n Hyrwyddwyr Cymru o Blaid Pobl Hŷn ym mhob awdurdod lleol
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Sefydliadau partner eraill yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector

Cafodd yr ymgynghoriad hefyd ei hysbysebu trwy sianeli Llywodraeth Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol a'i drafod mewn cyfarfodydd a digwyddiadau perthnasol. Gellid cyflwyno ymatebion trwy lenwi ffurflen

ar-lein Llywodraeth Cymru, ei lawrlwytho a'i dychwelyd trwy e-bost neu trwy ysgrifennu at y Tîm Hawliau Pobl Hŷn yn Llywodraeth Cymru.

5.3 **Ymatebion a chasgliadau**

Cafwyd 71 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Aelodau o'r cyhoedd oedd dau draean o'r ymatebwyr, ac roedd traean ohonynt yn sefydliadau. O'r rhai a gymerodd ran, atebodd 61 'YDW' neu 'NAC YDW' i'r cwestiwn sylfaenol ynghylch ymestyn y cyfnod swydd o bedair blynedd i saith mlynedd. Roedd 67% o blaid y cynnig hwn a 33% yn ei erbyn.

Gofynnwyd pedwar cwestiwn arall. Roedd y rhain yn gofyn i'r ymatebwyr roi sylwadau pellach ar y rhesymau pam y gwnaethant benderfynu pleidleisio 'YDW' neu 'NAC YDW'. Cafodd cwestiynau eu cynnwys hefyd a oedd yn ymwneud â'r effeithiau y gallai'r newid hwn eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar unigolion a grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

Roedd y sylwadau a gasglwyd mewn ymateb i'r cwestiynau hyn yn eang eu cwmpas. Roedd y mwyafrif yn gefnogol i'r cynnig i ymestyn y cyfnod swydd i saith mlynedd gan eu bod yn teimlo y byddai'n hwyluso mwy o ymgysylltiad ag unigolion a grwpiau o bobl hŷn, ac y byddai'r ymgysylltiad hwnnw hefyd yn fwy ystyrlon. Roedd yr ymatebion hefyd yn cydnabod y cyfle i gyflawni strategaeth ar gyfer y tymor hwy. Teimlai ymatebwyr eraill y gallai cyfnod swydd hwy arwain at feithrin agwedd hunanfodlon.

Nododd sawl un awydd i weld Comisiynydd Pobl Hŷn yn y swydd sy'n gallu siarad Cymraeg ac y byddai cyfnod swydd hwy yn cefnogi cyfleoedd i ddysgu a gwella sgiliau Cymraeg pan fo angen. Nododd eraill bwysigrwydd meithrin perthynas gref â grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig. Gofynnodd yr ymatebwyr hynny i ymdrechion gael eu gwneud i ddenu amrediad amrywiol o ymgeiswyr i rôl y Comisiynydd Pobl Hŷn.

5.4 Mae'r adroddiad ar 'Ymgynghoriad Cyfnod Swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (WG47762)' – i'w weld yma

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Yr opsiynau

6.1 Mae'r trefniadau sy'n llywodraethu cyfnod swydd y Comisiynydd Pobl Hŷn wedi'u nodi mewn is-ddeddfwriaeth, sef Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) 2007, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) (Diwygio) 2016. Mae hyn yn golygu mai dim ond trwy ddiwygio Rheoliadau 2007 y gellir cyflawni'r newidiadau arfaethedig i'r cyfnod penodi a dileu'r cyfle i ymestyn y cyfnod swydd neu i ailymgeisio am gyfnod swydd pellach.

Mae dau opsiwn sy'n ymwneud â'r diwygiad arfaethedig i'r is-ddeddfwriaeth sydd fel a ganlyn:

1. Cadw'r status quo.

2. Diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â chyfnod swydd y Comisiynydd Pobl Hŷn o bedair blynedd i saith mlynedd.

6.2 Opsiwn 1 – cadw'r status quo

Penodir y Comisiynydd Pobl Hŷn yn unol â'r rheoliadau a ganlyn:

- Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) 2007

fel y'u diwygiwyd gan yr isod:

- Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) (Diwygio) 2016

Cafodd cyfnod swydd y Comisiynydd Pobl Hŷn ei bennu yn bedair blynedd gan Reoliadau Penodi 2007, a nodwyd uchod. Nododd Adolygiad Shooter mewn perthynas â'r Comisiynydd Plant yn 2014 y dylid ymchwilio i fwy o gysondeb rhwng y Comisiynwyr gan fod Comisiynydd y Gymraeg, Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn cael eu penodi am gyfnod swydd o saith mlynedd yr un. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r adolygiad trwy gytuno i ymchwilio i sut y gellid gweithredu ei argymhellion. O ganlyniad, cafodd Rheoliadau 2007 eu diwygio gan Reoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) (Diwygio) 2016 er mwyn gwneud fel a ganlyn:

> *Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu y caiff y Prif Weinidog estyn cyfnod swydd y Comisiynydd, sydd yng nghyfnod cyntaf y penodiad, am gyfnod o hyd at ddwy flynedd. Wrth ddod i benderfyniad ynghylch pa un ai i estyn cyfnod swydd y Comisiynydd, rhaid i'r Prif Weinidog gymryd i ystyriaeth farn pobl*

hŷn. Os yw'r Prif Weinidog yn estyn cyfnod swydd y Comisiynydd, ni chaniateir i'r Comisiynydd gael ei ailbenodi am ail gyfnod[1].

Byddai cadw'r status quo yn golygu bod unrhyw Gomisiynydd Pobl Hŷn a ddaw yn dilyn hynny yn cael ei recriwtio am bedair blynedd i gychwyn gyda'r opsiwn i ymestyn y cyfnod swydd o ddwy flynedd arall hyd at uchafswm o chwe blynedd, yn amodol ar gytundeb y Prif Weinidog. Byddai cyfnod swydd y Comisiynydd Pobl Hŷn yn parhau i fod dair blynedd yn fyrrach na chyfnod y tri Chomisiynydd arall.

6.3 Opsiwn 2 – Diwygio'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chyfnod swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o bedair blynedd i saith mlynedd.

Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) (Diwygio) 2016 yn nodi nad yw cyfnod swydd y Comisiynydd Pobl Hŷn yn cyd-fynd â'r Comisiynwyr eraill. Mae hefyd yn nodi mai'r diwygiad arfaethedig am estyniad o ddwy flynedd ddylai fod y cam cyntaf i gysoni'r cyfnod swydd â chyfnod y tri Chomisiynydd arall.

Bydd y diwygiad arfaethedig i gyfnod swydd y Comisiynydd yn Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn caniatáu i'r Prif Weinidog benodi'r Comisiynydd Pobl Hŷn am gyfnod swydd o saith mlynedd yn hytrach na'r cyfnod presennol o bedair blynedd. Bydd y cyfle i ofyn i'r Prif Weinidog am estyniad o ddwy flynedd, neu i ailymgeisio am ail gyfnod swydd o bedair blynedd trwy broses gystadleuol, hefyd yn cael ei dynnu'n ôl gan y Rheoliadau hyn. Byddai hyn yn sicrhau cysondeb a chydraddoldeb â'r Comisiynwyr eraill sy'n cael eu penodi am un cyfnod swydd yn unig ac nad ydynt yn gallu gofyn am estyniad i'w cyfnod neu ailymgeisio am ail gyfnod.

Nid oes unrhyw ddulliau nac opsiynau deddfwriaethol eraill ar gael i'r Gweinidogion i sicrhau estyniad i gyfnod swydd presennol y Comisiynydd Pobl Hŷn o bedair blynedd i saith mlynedd.

7. Costau a manteision

7.1 Opsiwn 1: cadw'r status quo

Un fantais bosibl o ddewis yr opsiwn hwn yw y byddai'n caniatáu i'r Prif Weinidog ddod â chyfnod swydd y Comisiynydd Pobl Hŷn i ben ar ôl pedair blynedd pe na bai perfformiad deiliad y swydd yn bodloni disgwyliadau Llywodraeth Cymru neu pe bai pobl hŷn yng Nghymru yn cynghori yn erbyn rhoi estyniad o ddwy flynedd. Fodd bynnag, mae pob

[1] Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) (Diwygio) 2016 (Nodyn esboniadol)

Comisiynydd Pobl Hŷn hyd yma wedi naill ai gofyn am estyniad o ddwy flynedd neu wedi ailymgeisio am ail gyfnod swydd. Mae'r ail a'r trydydd Comisiynydd, ill dau, wedi cael estyniad o ddwy flynedd i'w cyfnod swydd. Mae pob Comisiynydd wedi nodi nad yw pedair blynedd yn rhoi digon o amser i gynllunio ar gyfer cynllun strategol a'i gyflawni'n llwyddiannus.

Ni fydd cadw'r status quo yn arwain at unrhyw arbedion. Grant o £1.6m gan Lywodraeth Cymru yw unig incwm y Comisiynydd Pobl Hŷn. Ni ddyrennir unrhyw ran o'r cyllid hwn gan y Comisiynydd Pobl Hŷn i drydydd parti (mae'r Comisiynydd yn dyrannu unrhyw grantiau neu gyllid yn uniongyrchol i bobl hŷn).

Byddai'r costau i Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r adnodd staff sy'n angenrheidiol i brosesu cais i'r Prif Weinidog am estyniad o ddwy flynedd neu i recriwtio Comisiynydd newydd hefyd yn aros yr un fath.

7.2 <u>Opsiwn 2 – Diwygio'r rheoliadau sy'n ymwneud â chyfnod swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o bedair blynedd i saith mlynedd.</u>

Mae cyfnod swydd y Comisiynydd Pobl Hŷn presennol yn dod i ben ym mis Awst 2024 ac mae gwaith wedi dechrau i benodi'r Comisiynydd nesaf. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae Comisiynydd y Gymraeg, Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, bob un ohonynt, yn cael eu penodi am un cyfnod swydd o saith mlynedd.

Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn a'r rhai sy'n cynrychioli barn pobl hŷn wedi galw am gysoni cyfnod swydd y Comisiynydd Pobl Hŷn â'r Comisiynwyr eraill yn barod ar gyfer y penodiad. Os na chaiff Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) 2007 (fel y'u diwygiwyd) eu newid, penodir y Comisiynydd Pobl Hŷn nesaf ym mis Awst 2024 am gyfnod swydd o bedair blynedd. Gall hwn gael ei ystyried fel cyfle a gollwyd i greu cysondeb a gall awgrymu nad yw Llywodraeth Cymru yn rhoi statws cyfartal i'r Comisiynydd Pobl Hŷn o'i gymharu â Chomisiynwyr eraill Cymru.

Bydd Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn dileu'r gofyniad i'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn y dyfodol ofyn i'r Prif Weinidog am estyniad o ddwy flynedd yn dilyn cwblhau cyfnod o bedair blynedd yn llwyddiannus. Bydd hefyd yn galluogi pobl hŷn i gynnal perthynas tymor hwy â'r Comisiynydd Pobl Hŷn presennol.

Mae swyddogaethau statudol y Comisiynydd Pobl Hŷn yn cynnwys:

- Hybu ymwybyddiaeth o hawliau a buddiannau pobl hŷn yng Nghymru
- Herio gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru
- Annog arferion gorau yn y ffordd y mae pobl hŷn yn cael eu trin yng Nghymru
- Adolygu'r gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru

Felly, bydd cynnig opsiwn 2 yn caniatáu i Gomisiynwyr y dyfodol ddatblygu a hyrwyddo polisïau dros gyfnod hwy sy'n helpu i ddiogelu hawliau pobl hŷn ac annog arferion da. Gallai hyn, yn ei dro, atal pobl hŷn rhag profi gwasanaethau a gwahaniaethu sy'n niweidiol i'w hiechyd a'u lles.

Mae swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn cael ei chyllido gan Lywodraeth Cymru – ni fydd y cynnig hwn yn arwain at unrhyw gynnydd yn y gyllideb hon. Fodd bynnag, bydd yn dileu'r angen i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar estyniad o ddwy flynedd yn dilyn cwblhau cyfnod swydd o bedair blynedd yn llwyddiannus. O ganlyniad, bydd hefyd yn lleihau'r costau sy'n gysylltiedig ag adnoddau staff Llywodraeth Cymru.

Mae swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn cael ei chyllido gan Lywodraeth Cymru – ni fydd y cynnig hwn yn arwain at unrhyw gynnydd yn y gyllideb hon. Felly, ni nodwyd unrhyw gostau ychwanegol nac arbedion ar gyfer busnesau, y trydydd sector na'r sector statudol.

Fodd bynnag, bydd y diwygiadau a gynigir yn dileu'r angen i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus at ddibenion unrhyw gais gan y Comisiynydd presennol am estyniad o ddwy flynedd i'w gyfnod swydd. O ganlyniad, bydd hefyd yn lleihau'r costau sy'n gysylltiedig ag adnoddau staff Llywodraeth Cymru. At hynny, gallai recriwtio bob saith mlynedd, yn hytrach na phob pedair blynedd, arwain at arbedion mewn costau recriwtio ac o ran amser staff Llywodraeth Cymru. Amcangyfrifir bod y gost recriwtio, sy'n dod o gyllideb Llywodraeth Cymru, yn £3,000. Mae hon yn gost uniongyrchol ac mae'n seiliedig ar y gost gyfredol o recriwtio'r Comisiynydd Pobl Hŷn nesaf.

Gellid cael effaith gadarnhaol anuniongyrchol ar unigolion os bydd Comisiynwyr y dyfodol yn dewis parhau ag ymgyrch y Comisiynydd Pobl Hŷn presennol i gynyddu'r nifer sy'n hawlio credydau pensiwn yng Nghymru. Trwy gynyddu nifer y rhai sy'n hawlio credydau pensiwn, bydd gan bobl hŷn hefyd fwy o arian i'w wario yn eu cymunedau lleol a, thrwy hynny, bydd yr economi leol yn elwa. Byddai cyfnod swydd hwy o saith mlynedd yn creu parhad, a gallai gryfhau unrhyw ymgyrchoedd sy'n ymwneud â llesiant economaidd pobl hŷn.

<u>Effaith ac ymgynghori</u>

Mae asesiad llawn o'r effaith gymdeithasol ar bobl hŷn, ynghyd â thystiolaeth ategol, wedi'i gwblhau yn yr Asesiad Effaith Integredig sy'n cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Bydd copi ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Fel y nodwyd yn gynharach yn y ddogfen hon, mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn a'r rhai sy'n cynrychioli barn pobl hŷn wedi galw am gysoni cyfnod swydd y Comisiynydd â'r Comisiynwyr eraill yn barod ar gyfer penodi'r Comisiynydd Pobl Hŷn nesaf.

Yn ogystal ag ymateb i geisiadau gan y Comisiynydd Pobl Hŷn presennol a phobl hŷn i ymestyn y cyfnod swydd, rydym wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus a ddosbarthwyd i grwpiau a fforymau pobl hŷn.

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad ymhlith aelodau Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio a'r rhwydwaith o arweinwyr o blaid pobl hŷn yn yr awdurdodau lleol a gofynnwyd iddynt am eu hadborth. Mae'r ymgynghoriad hefyd wedi cael ei drafod â staff sy'n gweithio yn swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn presennol gan mai nhw yw'r grŵp sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig.

8. Asesu’r Gystadleuaeth

Ni fydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn effeithio ar fusnesau, elusennau a/neu'r sector gwirfoddol.

9. Adolygu ar ôl gweithredu

Nid oes unrhyw gynlluniau i fonitro na gwerthuso effaith diwygio'r is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, bydd perfformiad Comisiynwyr y dyfodol yn cael ei fonitro gan Weinidogion ac uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru a bydd unrhyw fanteision neu faterion sy'n deillio o gyfnod swydd estynedig yn cael eu nodi trwy'r adolygiadau hyn.